**Rhif: WG39453**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Band Eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf – Ymgynghoriad Cyhoeddus 2019

Dyddiad cyhoeddi: 12 Tachwedd 2019
Camau gweithredu sy'n ofynnol: Ymatebion erbyn 12 Rhagfyr 2019

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

1. Cyflwyniad ..... 3
1.1. Amcanion ..... 3
1.2. Sut i ymateb ..... 3
1.3. Dyddiad cau ..... 4
2. Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ..... 5
3. Cyd-destun ..... 7
3.1. Adolygiadau blaenorol o’r Farchnad Agored ac Ymyriadau NGA ..... 7
3.2. Adolygiad o’r Farchnad Agored (OMR) 2019 ..... 7
4. Trin Gwybodaeth a Ddaeth i Law mewn Ymatebion i'r OMR ..... 9
4.1. Trosolwg o'r wybodaeth a gafwyd ..... 9
4.2. Gwybodaeth am fand eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf (NGA) ..... 9
4.3. Adeiladau Tu Allan i'r Cwmpas ..... 10
5. Canfyddiadau ..... 11
5.1. Cyflwyniad ..... 11
5.2. Dadansoddiad o adeiladau a chodau post ..... 11
5.3. Allbynnau data ..... 12
6. Eich Ymateb i’r Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn ..... 13
6.1. Amcanion ..... 13
6.2. Adborth penodol y gofynnir amdano ..... 13
6.3. Sut i ymateb – Preswylwyr a busnesau yng Nghymru ..... 13
6.4. Sut i ymateb – Awdurdodau Lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r diwydiant ..... 16
6.5. Sut i ymateb – Darparwyr telegyfathrebiadau ..... 17
6.6. Trin yr Wybodaeth a Ddarparwyd ..... 19
6.7. Y Camau Nesaf ..... 19
Atodiad A: Rhestr o dermau ..... 20

## 1. Cyflwyniad

### 1.1. Amcanion

Pwrpas yr Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn yw cadarnhau pa adeiladau yng Nghymru sydd heb strwythur band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf (NGA) sy'n gallu darparu 30 Mb yr eiliad o leiaf i adeiladau – a/neu wasanaethau Gigabit, neu lle nad oes unrhyw gynlluniau i ddarparu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r broses hon yn galluogi pob parti â buddiant i roi sylwadau ar y prosesau dosbarthu a mapio adeiladau a luniwyd yn sgil Adolygiad o'r Farchnad Agored (OMR) 2019, lle rhoddodd darparwyr telegyfathrebiadau wybodaeth am eu cynlluniau ar gyfer NGA yn ddiweddar.

Y prif reswm dros gynnal yr Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn yw deall cysylltedd band eang yn iawn ledled Cymru, er mwyn helpu Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol gydag ymyriadau posibl yn y dyfodol.

### 1.2. Sut i ymateb

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn gan dri math o randdeiliad.

Pan fyddwch yn ystyried eich ymateb i'r canfyddiadau a nodwyd yn adran 5, dilynwch y cyfarwyddiadau sy'n berthnasol i chi.

> **Preswylwyr a busnesau:** edrychwch ar y cyfarwyddiadau yn Adran 6.3
>
> **Awdurdodau Lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r diwydiant:** edrychwch ar y cyfarwyddiadau yn Adran 6.4
>
> **Darparwyr telegyfathrebiadau:** edrychwch ar y cyfarwyddiadau yn Adran 6.5.

Er mwyn osgoi amheuaeth, does dim rhaid i chi ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn os nad oes gennych chi sylwadau i'w gwneud. Dylech gyfyngu eich ymateb i'r wybodaeth y gofynnir amdani, yn hytrach na sylwadau ehangach ar faterion cysylltiedig â gwasanaethau neu ddarpariaeth band eang.

**Gellir gwneud cais i gael fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu ieithoedd eraill.**

| | |
|---|---|
| **1.3. Dyddiad cau** | Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor tan 17:00 ar 12 Rhagfyr 2019. |

## 2. Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## 3. Cyd-destun

### 3.1. Adolygiadau blaenorol o’r Farchnad Agored ac Ymyriadau NGA

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ei Hymgynghoriad Cyhoeddus cyntaf ac Adolygiad o'r Farchnad Agored (OMR) ym mis Mehefin 2011. Yn dilyn yr OMR hwn a’r broses gaffael ddilynol, cafodd cytundeb grant Superfast Cymru ei dyfarnu i BT yn 2012 er mwyn darparu band eang cyflym iawn i ardal ymyrryd benodedig.

Fe wnaeth Superfast Cymru ddarparu mynediad band eang cyflym iawn i oddeutu 733,000 o gartrefi a busnesau yng Nghymru (ar >24 Mb yr eiliad), a gall 717,000 o'r rheini gyrraedd cyflymderau sydd o leiaf 30Mb yr eiliad. Cafodd y prosiect ei ddarparu gyda dros £200m buddsoddiad gan y sector cyhoeddus. Cysylltiad ffeibr i’r cabinet oedd y dechnoleg a gafodd ei chyflwyno gan Openreach yn bennaf, gyda rhywfaint o dechnoleg ffeibr i'r adeilad sy’n gallu delio â gigabit. Cafodd y gwaith cyflwyno hwn ei gwblhau yn 2018.

Yn ystod Superfast Cymru, cafodd dau OMR arall eu cynnal i gadw llygad ar y newid yn y darlun cysylltedd, a chynlluniau darparwyr telegyfathrebiadau preifat. Fe wnaeth OMR yn 2014 arwain at ychwanegu adeiladau eraill at gytundeb grant Superfast Cymru.

Cafodd Adolygiad pellach o'r Farchnad Agored ei gynnal yn 2017 i ailasesu nifer yr adeiladau Gwyn[1] oedd ar ôl yng Nghymru. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd, mae prosiect cyflwyno ffeibr pellach wedi cael ei gaffael gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn ariannu cysylltedd ar gyfer 26,000 o adeiladau ychwanegol ledled Cymru. Bwriedir cyflwyno technoleg ffeibr i’r adeilad yn yr holl adeiladau hyn. Bydd hyn yn digwydd drwy £26m o gymhorthdal cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a chyllid gan yr UE.

### 3.2. Adolygiad o’r Farchnad Agored (OMR) 2019

Cafodd yr OMR a nodir yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn ei gynnal gan Lywodraeth Cymru rhwng 19 Gorffennaf 2019 a 20 Awst 2019. Fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru gais ffurfiol am wybodaeth i’r holl weithredwyr seilwaith band eang hysbys yng Nghymru, ac i ddarparwyr eraill mae’n hysbys bod ganddynt rwydweithiau ar draws y DU (neu gynlluniau posib i’w cyflwyno). Cafodd yr OMR ei hyrwyddo drwy hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd.

Gofynnwyd i ddarparwyr telegyfathrebiadau ddarparu gwybodaeth ar lefel adeiladau ynglŷn â’u seilwaith Gigabit a/neu fand eang NGA sy’n bodoli eisoes ac wedi’i gynllunio. Gofynnwyd am yr wybodaeth hon er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i ddeall cysylltedd yng Nghymru yn llawn. Dylid nodi mai bwriad yr “Ardal

[1] Safleoedd Gwyn yw’r rhai lle nad oes unrhyw rwydweithiau NGA cymwys a lle nad yw’n debygol y caiff rhwydweithiau eu datblygu o fewn 3 blynedd.

Ymyrryd” sydd wedi'i chreu yw bod yn ganllaw ar gyfer ymyriadau posib yn y dyfodol, yn hytrach nag ymwneud â chaffael wedi'i gynllunio.

## 4. Trin Gwybodaeth a Ddaeth i Law mewn Ymatebion i'r OMR

### 4.1. Trosolwg o'r wybodaeth a gafwyd

Cafodd Llywodraeth Cymru ymatebion o bwys i'r Cais am Wybodaeth yn yr OMR gan 12 o ddarparwyr telegyfathrebiadau. Darparwyd gwybodaeth ar lefel adeiladau gan rai ohonynt ond dim ond data ar lefel cod post a ddarparwyd gan eraill. Felly, oherwydd bod diffyg data cyson ar lefel adeiladau, mae Llywodraeth Cymru wedi mapio *lle bo hynny'n bosib* ar lefel UPRN[2] (Cyfeirnod Eiddo Unigryw) adeiladau – neu fel arall, lle doedd yr wybodaeth hon ddim ar gael, mae ardaloedd wedi cael eu mapio ar lefel cod post.

### 4.2. Gwybodaeth am fand eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf (NGA)

Ar gyfer yr ymarfer mapio NGA, cafodd lefel adeiladau a lefel cod post eu diffinio gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

Mewn cysylltiad â data ar lefel adeiladau:

- Caiff adeilad ei droi'n Llwyd os mai dim ond un darparwr seilwaith band eang sy'n darparu gwasanaethau NGA
- Caiff adeilad ei droi'n Ddu os oes o leiaf ddau ddarparwr seilwaith band eang yn darparu gwasanaethau NGA
- Mae'r holl adeiladau eraill yn aros yn Wyn, h.y. does dim darparwyr seilwaith band eang yn bresennol.

Mewn cysylltiad â data ar lefel cod post:

- Caiff cod post ei droi'n Llwyd os mai dim ond un darparwr seilwaith band eang sy'n darparu gwasanaethau NGA
- Caiff cod post ei droi'n Ddu os oes o leiaf ddau ddarparwr seilwaith band eang yn darparu gwasanaethau NGA
- Caiff cod post hefyd ei droi'n Ddu os oes un darparwr cod post ac un neu fwy o ddarparwyr ar gyfer yr adeilad
- Mae'r holl godau post eraill yn aros yn Wyn, h.y. does dim darparwyr seilwaith band eang yn bresennol.

Mae'r Ardal Ymyrryd[3] bosib hefyd yn cynnwys ardaloedd Dan Adolygiad ('Adeiladau Dan Adolygiad' a 'Chodau Post Dan Adolygiad'). Mae'r rhain yn ardaloedd y mae darparwyr seilwaith band eang wedi nodi bod cynlluniau ar y

---

[2] Cod adnabod alffaniwmerig unigryw ar gyfer pob cyfeiriad gofodol ym Mhrydain yw'r Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN), sydd i'w weld yng nghynnyrch Cyfeiriad yr Arolwg Ordnans. Mae'r Cod Eiddo Unigryw yn darparu cod adnabod cynhwysfawr a chyson drwy gydol oes eiddo – o'r caniatâd cynllunio hyd at ei ddymchwel.

[3] Fel y nodwyd yn adran 2.2, bwriad yr Ardal Ymyrryd yw bod yn ganllaw ar gyfer ymyriadau posib yn y dyfodol, yn hytrach nag ymwneud â chaffael wedi'i gynllunio

gweill i gyflwyno darpariaeth fasnachol ar gyfer band eang NGA ynddynt (yn ystod y 3 blynedd nesaf). Fodd bynnag, nid yw’r gwaith penodol hwn o ddiweddaru a/neu gyflwyno rhwydwaith NGA wedi cael ei brofi’n llawn a/neu ei gwblhau ar hyn o bryd, felly gall beri ‘risg’ o gael ei gwblhau a gall gwasanaethau NGA gael eu darparu i’r adeiladau hyn. Mewn achosion lle nodir bod y cod post neu'r adeilad Dan Adolygiad, bydd cynlluniau cyflwyno’r darparwr telegyfathrebiadau yn cael eu monitro’n barhaus ac yn cael eu dilysu gan Lywodraeth Cymru. Pe bai'r cynlluniau masnachol hyn yn mynd i'r gwellt, byddai'r codau post a/neu'r adeiladau hyn yn cael eu mapio fel rhai NGA Gwyn (ac fe allent fod yn rhan o Ardal Ymyrryd yn y dyfodol).

### 4.3. Adeiladau Tu Allan i'r Cwmpas

Mae’r Ardal Ymyrryd wedi'i dosbarthu fel ardal ‘Tu Allan i'r Cwmpas’. Mae hyn yn cyfeirio at adeiladau mae trefniadau sy’n cael eu hariannu gan BDUK eisoes yn berthnasol iddynt, ac felly nid ydynt yn gymwys i gael unrhyw gyllid ymyrryd yn y dyfodol. Dylid nodi, bod ardaloedd dan waharddiad y Tu Allan i Gwmpas BDUK wedi cael eu diffinio ar gyfer Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd yn ystod proses OMR 2017 – oherwydd roedd trefniadau wedi'u hariannu gan BDUK, fel y Rhaglen Dinasoedd Cysylltiad Cyflym a’r cynllun Talebau Cysylltiad Band-eang, eisoes yn berthnasol i’r ardaloedd hyn.

Fodd bynnag, yn achos yr OMR presennol, mae'r ardaloedd cyfwerth wedi cael eu trin yn wahanol. Gan ystyried mai prif bwrpas yr OMR presennol yw cael darlun cyflawn o gysylltedd ledled Cymru, mae’r ardaloedd y Tu Allan i’r Cwmpas sy’n berthnasol i'r dinasoedd hyn wedi cael eu hintegreiddio o’r newydd yn yr Ardal Ymyrryd bosib – sy’n golygu ei bod, i bob pwrpas, yn cynnwys yr holl adeiladau yng Nghymru lle mae diffyg darpariaeth. Felly does dim adeiladau yn ymddangos fel rhai Tu Allan i'r Cwmpas.

Drwy wneud hyn mae Llywodraeth Cymru yn deall yn llawn, pe bai data OMR 2019 yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol er mwyn helpu i bennu unrhyw Ardaloedd Ymyrryd posib a darpar waith caffael, byddai angen ymchwilio ymhellach i ba mor gyfreithlon fyddai cynnal unrhyw ymyriadau yn yr ardaloedd dan waharddiad hyn gyda BDUK.

## 5. Canfyddiadau

### 5.1. Cyflwyniad

Mae’r wybodaeth isod yn cynrychioli canfyddiadau OMR, ar sail manylion dadansoddi ac agregu data a ddaeth i law gan ddarparwyr telegyfathrebiadau. Caiff rhanddeiliaid eu gwahodd i roi sylwadau ar yr wybodaeth hon.

Nodwch fod y math o sylw y gofynnir amdano yn wahanol yn dibynnu ar y math o randdeiliad – **cyfeiriwch at adran 6 i gael arweiniad ar sut mae ymateb.**

### 5.2. Dadansoddiad o adeiladau a chodau post

Mae’r dadansoddiad o’r ddarpariaeth bresennol a’r ddarpariaeth sydd ar y gweill (yn ystod y 3 blynedd nesaf) wedi nodi'r ardaloedd Gwyn sydd ar ôl. Mae canlyniad yr OMR wedi'i grynhoi yn y tabl isod:[4]

| Statws yr Ymgynghoriad | Adeiladau (Gwybodaeth a ddarparwyd ar lefel cod post) | Adeiladau (Gwybodaeth a ddarparwyd ar lefel adeilad) | Cyfanswm yr Adeiladau |
|---|---|---|---|
| Du | 379,324 | | 379,324 |
| Llwyd | 22,271 | 1,119,640 | 1,141,911 |
| Dan Adolygiad | 128 | 27,750 | 27,878 |
| Gwyn | - | 96,111 | 96,111 |

Mae nifer yr adeiladau Gwyn ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru i'w gweld isod:

| Awdurdod Lleol | Nifer yr Adeiladau Gwyn |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 1,488 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2,684 |
| Caerffili | 1,372 |
| Caerdydd | 1,028 |
| Sir Gaerfyrddin | 12,838 |
| Ceredigion | 7,181 |
| Conwy | 3,794 |
| Sir Ddinbych | 4,689 |
| Sir y Fflint | 3,730 |
| Gwynedd | 8,969 |
| Ynys Môn | 3,466 |
| Merthyr Tudful | 900 |
| Sir Fynwy | 5,590 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,941 |
| Casnewydd | 1,751 |
| Sir Benfro | 9,819 |
| Powys | 13,188 |

[4] Er gwybodaeth, 90,660 o godau post sydd ar gyfer yr holl adeiladau yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | 3,237 |
| Abertawe | 2,440 |
| Torfaen | 998 |
| Bro Morgannwg | 2,213 |
| Wrecsam | 2,785 |
| Adeiladau yng Nghymru wedi'u Rhestru yn Lloegr[5] | |
| Swydd Gaer a Dwyrain Swydd Gaer | 3 |
| Swydd Gaerloyw | 1 |
| Swydd Amwythig | 6 |
| Cyfanswm | 96,111 |

### 5.3. Allbynnau data

Mae tair ffynhonnell ddata wedi cael eu creu o'r wybodaeth a gasglwyd.

1. Map band eang NGA rhyngweithiol – yn dangos adeiladau a chodau post Du, Llwyd, Gwyn a Dan Adolygiad, sy'n deillio o ddadansoddiad yr OMR

2. Rhestr o godau post yn dangos yr adeiladau Gwyn y mae modd ei gweld ar wefan Llywodraeth Cymru

3. Mae modd cael data ar lefel adeiladau ar gais, yn amodol ar lofnodi Trwydded Defnyddiwr y Sector Cyhoeddus y mae modd ei gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae adran 6 isod yn darparu rhagor o wybodaeth am sut mae defnyddio'r allbynnau hyn i lunio'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

[5] Mae'r adeiladau hyn yn dechnegol yng Nghymru ond wedi'u categoreiddio gan ABP fel rhai sy'n gysylltiedig ag Awdurdod Lleol yn Lloegr.

## 6. Eich Ymateb i’r Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn

### 6.1. Amcanion

Y prif reswm dros gynnal OMR 2019 yw deall cysylltedd yng Nghymru yn llawn a helpu Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol gydag unrhyw ymyriadau a chaffael cyhoeddus yn y dyfodol. Felly, pwrpas yr Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn yw cadarnhau pa ardaloedd sy’n dal heb seilwaith NGA (sy’n darparu 30 Mb yr eiliad o leiaf) – a/neu wasanaethau Gigabit, neu lle nad oes unrhyw gynlluniau i ddarparu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf.

Mae adran 5 uchod yn nodi canfyddiadau cychwynnol yr OMR mewn perthynas ag adeiladau a chodau post, ac yn darparu dolen i fap rhyngweithiol sy’n caniatáu i randdeiliaid adolygu sut mae adeiladau a chodau post unigol wedi cael eu dosbarthu. Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw cael **adborth penodol** (gweler adran 6.2 isod) ar y canfyddiadau hyn a’r mapiau sydd wedi’u llunio.

Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn ofalus a, lle bo hynny’n briodol, yn cael eu defnyddio i fireinio map terfynol yr Ardal Ymyrryd. Bydd mapiau terfynol yr Ardal Ymyrryd, yn ogystal ag adroddiad cryno sy’n cadarnhau manylion y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i’r Ardal Ymyrryd o ganlyniad i’r ymgynghoriad hwn, yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn fuan ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

### 6.2. Adborth penodol y gofynnir amdano

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am ymateb pwrpasol gan dri math o randdeiliad:

- Math A: Preswylwyr a busnesau
- Math B: Awdurdodau Lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r diwydiant
- Math C: Darparwyr telegyfathrebiadau.

Mae cyfarwyddiadau ar gyfer pob rhanddeiliad i'w gweld isod.

Dylid cyflwyno’r holl ymatebion i Lywodraeth Cymru erbyn **17:00** ar **5 Rhagfyr 2019** fan bellaf. Dylid cyflwyno'r holl ymatebion yn unol ag amserlenni’r ymgynghoriad a’r cyfarwyddiadau isod. Efallai na fydd ymatebion sy’n dod i law ar ôl i’r ymgynghoriad ddod i ben yn cael eu hystyried.

### 6.3. Sut i ymateb – Preswylwyr a busnesau yng Nghymru

Rydyn ni wedi gofyn i ddarparwyr telegyfathrebiadau rannu eu darpariaeth band eang cyflym iawn (30Mb yr eiliad neu fwy) â ni, yn ogystal â’u cynlluniau ar gyfer Cymru yn ystod y tair blynedd nesaf. Rydyn ni wedi casglu'r data yma drwy gynnal Adolygiad o'r Farchnad Agored (OMR).

Rydyn ni nawr yn gwahodd preswylwyr a pherchnogion busnesau yng Nghymru i wirio'r data yma, ac argaeledd band eang cyflym iawn yn eu hadeilad yn benodol. Dim ond os gallwch chi weld gwallau yn y data ar gyfer eich adeilad mae'n rhaid i chi ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Os hoffech chi ymateb, rydyn ni wedi amlinellu'r broses isod.

**Cam 1 – Pa wasanaeth band eang alla i ei gael eisoes?**

Yn gyntaf, edrychwch i weld a oes gennych chi fynediad at wasanaeth band eang eisoes. Mae gan y rhan fwyaf o gartrefi a busnesau yng Nghymru fynediad at fand eang cyflym iawn gyda chyflymder o 30Mb yr eiliad neu fwy, felly efallai eich bod chi eisoes yn cael band eang cyflymach. Mae angen i chi edrych ar y sefyllfa ddiweddaraf yn eich adeilad heddiw, hyd yn oed os nad ydych chi'n meddwl bod cyflymderau band eang cyflym ar gael, oherwydd gall argaeledd newid.

Mae gan Ofcom, y rheolydd gwasanaethau telegyfathrebiadau, adnodd gwirio y gallwch ei ddefnyddio i edrych ar argaeledd yn eich adeilad.

**Cam 2 – Sut alla i wirio a yw'r data ar gyfer fy adeilad yn gywir?**


Gan ddefnyddio'r data a gafwyd yn yr OMR, mae pob adeilad yng Nghymru wedi cael ei ddosbarthu yn ddibynnol ar ei allu i gael mynediad at fand eang dros 30Mb yr eiliad, nawr neu yn y dyfodol.

Dyma'r dosbarthiadau:

- **Adeiladau 'Gwyn'** = adeiladau nad oes ganddynt fynediad at fand eang dros 30Mb yr eiliad ac nad oes cynlluniau i hynny fod ar gael yn ystod y tair blynedd nesaf
- **Adeiladau 'Llwyd'** = adeiladau sydd â mynediad at fand eang dros 30Mb yr eiliad, neu gynlluniau i hynny fod ar gael yn ystod y tair blynedd nesaf; ond mai dim ond un rhwydwaith sy'n darparu hyn.
- **Adeiladau 'Du'** = adeiladau sydd â mynediad at fand eang dros 30Mb yr eiliad, neu gynlluniau i hynny fod ar gael yn ystod y tair blynedd nesaf; a bod hynny'n cael ei ddarparu gan o leiaf ddau ddarparwr rhwydwaith
- **Adeiladau 'Dan Adolygiad'** = adeiladau rydyn ni'n parhau i'w monitro'n agos yw'r rhain, oherwydd bod darparwyr wedi dweud wrthym ni fod cynlluniau yn yr arfaeth i gyflwyno darpariaeth ynddynt yn ystod y tair blynedd nesaf, neu oherwydd ein bod ni heb lwyddo i brofi'n llawn bod rhwydwaith â mynediad at fand eang cyflym yn bodoli yno.

Rydyn ni wedi plotio'r data yma ar fap rhyngweithiol

Dylai'r map lwytho fel mae'n ymddangos yn y llun isod




I’r chwith o'r map, mae allwedd yn dangos y symbolau a ddefnyddir ar gyfer pob un o'r categorïau o fathau gwahanol o adeiladau. Sylwch fod yr adeiladau Gwyn wedi’u marcio mewn coch er mwyn eu gwneud yn haws eu gweld ar y map.

Mae bar chwilio uwch ben y map (wedi'i amlygu mewn glas yn y llun uchod). Rhowch eich cod post neu gyfeiriad eich stryd ynddo a phwyso ‘enter’.

Byddwch nawr yn gweld map agos o’r ardal o amgylch eich adeilad. Cliciwch ar eich adeilad ar y map i gael y data llawn.

Bydd blwch yn ymddangos ac yn dangos yr wybodaeth ganlynol:

- Statws – dosbarthiad eich adeilad, e.e. Du, Gwyn neu Lwyd
- UPRN – dyma’r ‘cyfeirnod adeilad unigryw’ ar gyfer eich adeilad. **Gwnewch nodyn o hwn os ydych chi’n bwriadu ymateb**
- Rhif neu Destun – rhif y stryd neu enw eich adeilad
- Stryd – y stryd mae eich adeilad arni
- Tref – y dref mae eich adeilad ynddi
- Cod post – cod post eich adeilad
- Disgrifiad o’r Dosbarthiad – disgrifiad o'ch adeilad (e.e. math o dŷ neu fusnes).

Gwnewch yn siŵr bod statws eich adeilad yn gywir. Os oes rhywbeth yn anghywir neu fod dim modd dod o hyd i'ch cyfeiriad, ewch ymlaen i gam 3 i ymateb i'r ymgynghoriad.

**Cam 3 – Sut alla i ymateb i'r ymgynghoriad i roi gwybod am broblem gyda'r data ar gyfer fy eiddo?**

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwneud nodyn o ddosbarthiad statws eich adeilad a'r UPRN cyn anfon ymateb atom. Gallwch ddod o hyd i'ch UPRN ar y map rhyngweithiol a'i gopïo drwy ei amlygu, rhoi clic dde arno a dewis 'copïo', wedyn ei ludo yn eich ymateb.

Rydyn ni wedi llunio ffurflen ar-lein er mwyn casglu'r holl ymatebion gan breswylwyr a pherchnogion busnesau yng Nghymru. I gael gwybodaeth am beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cysylltu â Llywodraeth Cymru, ac i ddarparu eich gwybodaeth bersonol i ni, darllenwch hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru.

Bydd y ffurflen yn gofyn i chi am gyfeiriad llawn a rhif ffôn llinell sefydlog yr adeilad rydych chi'n ymateb yn ei gylch, eich cyfeiriad e-bost, gwybodaeth am y broblem â'r data, ac unrhyw wybodaeth arall sydd gennych chi a allai fod yn ddefnyddiol.

Sylwch mai dim ond nodi materion yng nghyswllt data yw diben yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Ni allwn ateb ymholiadau cyffredinol am fand eang drwy'r broses hon a dim ond os oes gennym gwestiynau pellach am eich ymateb fyddwn ni'n cysylltu â chi.

Fel arall, os oes gennych chi gwestiynau cyffredinol am fynediad at fand eang yng Nghymru, defnyddiwch ein ffurflen 'cysylltu â ni' i gael rhagor o wybodaeth am fand eang cyflym iawn.

## 6.4. Sut i ymateb – Awdurdodau Lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r diwydiant

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Awdurdodau Lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r diwydiant ddarparu mewnbwn ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn – mewn perthynas â sut mae cynlluniau band eang a ariennir gan y cyhoedd y maent yn rhan ohonynt (neu y maent yn ymwybodol ohonynt) yn effeithio ar y canfyddiadau a nodir yn Adran 5. Felly, caiff awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r diwydiant eu gwahodd i archwilio'r wybodaeth a'r map rhyngweithiol a ddarperir yn Adran 4. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu darparu set ddata ynghylch adeiladau mewn Awdurdod Lleol neu ardal berthnasol at ddibenion yr ymateb (bydd hyn yn golygu llofnodi Trwydded Defnyddiwr y Sector Cyhoeddus). Gan fanteisio ar y data yma, atebwch y cwestiynau penodol hyn:

1. Ydych chi'n rhan o unrhyw fuddsoddiad mewn gwasanaethau band eang NGA a/neu Gigabit (yn ystod y tair blynedd nesaf) neu'n ymwybodol o fuddsoddiad efallai nad yw wedi'u gynnwys yn yr Ardal Ymyrryd arfaethedig eisoes?

2. Os felly, allwch chi ddarparu tystiolaeth o'r buddsoddiad hwn, gan gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):

- Data lefel cod post / UPRN (gall Llywodraeth Cymru ddarparu templed cyflwyno ar gais)
- Dyddiadau cyflwyno arfaethedig a manylion cynlluniau cyflawni, gan gynnwys tendrau neu gontractau arfaethedig sydd wedi'u dyfarnu i ddarparwyr telegyfathrebiadau
- Tystiolaeth i gefnogi cynlluniau gwirioneddol ar gyfer darpariaeth, gan gynnwys achosion busnes a thystiolaeth o gyllid sydd ar gael i allu gwireddu cynlluniau
- Disgrifiad manwl o'r ateb(ion) technoleg sydd wedi'u rhoi ar waith (neu a fydd yn cael eu rhoi ar waith) yn eich seilwaith band eang
- Mapiau sy'n dangos manylion yr adeiladau mae cynlluniau buddsoddi presennol neu arfaethedig yn effeithio arnynt.

3. Nodwch yn glir a yw'r canlynol yn berthnasol i bob cynllun sydd dan sylw:
    - Yn ystod y cam cynnig
    - Wedi cytuno ac ymrwymo i gyllid
    - Wrthi'n cael ei osod / cyflwyno
    - Wedi gorffen / ar waith.

Dylai ymatebwyr anfon e-bost at OMR19@gov.wales o dan y teitl "Ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus Llywodraeth Cymru" a chynnwys:

- Enw'ch sefydliad (os yw'n berthnasol)
- Cyfeiriad eich sefydliad (os yw'n berthnasol)
- Eich enw
- Safle
- Rhif ffôn cysylltu
- Cyfeiriad E-bost.

A fyddech cystal â chefnogi'r wybodaeth ofynnol gydag unrhyw dystiolaeth ategol rydych chi'n ei hystyried yn briodol (e.e. dolenni i wefannau cyhoeddus). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn am gadarnhad gan lofnodwr awdurdodedig bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn gywir ac yn gyfredol.

### 6.5. Sut i ymateb – Darparwyr telegyfathrebiadau

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd darparwyr telegyfathrebiadau i archwilio'r wybodaeth a'r map rhyngweithiol yn Adran 5, er mwyn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol / wahanol ynghylch seilwaith NGA a Gigabit a allai effeithio ar y dosbarthiad a nodir ar gyfer adeiladau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu darparu set ddata ynghylch adeiladau at ddibenion yr ymateb (bydd hyn yn golygu llofnodi Trwydded Defnyddiwr y Sector Cyhoeddus).

Mewn perthynas â'r data yma, rhowch fanylion a thystiolaeth ategol ychwanegol / wahanol am unrhyw fuddsoddiad cyfredol neu arfaethedig mewn seilwaith band eang (band eang mynediad y genhedlaeth nesaf a band eang Gigabit) yng Nghymru. O ran buddsoddiad arfaethedig, mae gennym

ddiddordeb arbennig mewn cynlluniau ar gyfer y tair blynedd nesaf (hyd at fis Tachwedd 2022). Y tu hwnt i gwblhau templed y daenlen, dylai unrhyw wybodaeth sy'n cael ei darparu mewn ymateb i'r cais hwn gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

- Manylion yr adeiladau ar gyfer band eang NGA a Gigabit, gan ddangos y ddarpariaeth bresennol a data (a mapiau) ar wahân sy'n dangos y buddsoddiad arfaethedig yn y rhwydweithiau seilwaith band eang NGA a Gigabit am y tair blynedd nesaf o leiaf

- Manylion yr adeiladau a basiwyd neu a ddarparwyd ar eu cyfer, gan gynnwys gwybodaeth am nifer y safleoedd a basiwyd (yn achos rhwydwaith sefydlog) neu a ddarparwyd ar eu cyfer, ac sy'n gallu cael gwasanaethau (yn achos rhwydwaith di-wifr/lloeren)

- Manylion y dechnoleg yr honnir ei bod yn dechnoleg NGA, sy'n dangos sut mae'n bodloni'r safonau isaf a nodir yng Nghanllawiau Technoleg BDUK[6]. O ran gwasanaethau Gigabit, gwybodaeth gymharol yn dangos cyflawni ar gyflymderau Gigabit

- Disgrifiad o'r gwasanaethau / nwyddau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd ac ar wahân i'r rhai sy'n cael eu cynnig yn y tair blynedd nesaf

- Tariffau gosod a rhentu ar gyfer gwasanaethau/nwyddau sy'n dangos yn glir a ydynt yn cynnwys TAW ai peidio

- Cyflymderau uwchlwytho a lawrlwytho arferol defnyddwyr

- Dangosyddion priodol ar gyfer ansawdd y gwasanaeth, e.e. cymhareb gystadlu neu ddyraniad lled band fesul defnyddiwr

- Tystiolaeth i gefnogi honiad o ddarpariaeth wirioneddol neu arfaethedig, gan gynnwys achosion busnes a thystiolaeth o gyllid sydd ar gael i allu gwireddu cynlluniau

- Manylion ac amseriad y gwaith o gyflwyno buddsoddiad yn y dyfodol

- Cadarnhad gan rhywun sydd ag awdurdod i lofnodi yn dweud bod yr holl wybodaeth yn gywir.

Bydd Templed Ymateb i'r Adolygiad yn cael ei ryddhau unwaith y bydd Trwydded Defnyddiwr y Sector Cyhoeddus, sydd ar gael ym Mhorthol Ymgynghoriad Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, wedi cael ei llofnodi ac wedi cael ei dychwelyd i OMR19@gov.wales.

---

6 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/536767/2016_NBS_-State_Aid_Guidance_-NGA_Technology.pdf
Mae enghraifft wedi'i gweithio ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/2016-nbs-tech-guidelines

Cyn i ni ryddhau'r templed, dywedwch pa ardaloedd o Gymru rydych chi'n darparu ar eu cyfer neu'n bwriadu darparu ar eu cyfer – drwy nodi'r Ardaloedd Awdurdodau Lleol perthnasol. Yna, byddwn ni'n anfon fersiwn o Dempled Ymateb i'r Ymgynghoriad, wedi'i theilwra i'r ardaloedd penodol hynny.

Dylai ymatebwyr anfon e-bost at OMR19@gov.wales o dan y teitl "Ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus Llywodraeth Cymru" a chynnwys:

- Enw'ch sefydliad (os yw'n berthnasol)
- Cyfeiriad eich sefydliad (os yw'n berthnasol)
- Eich enw
- Safle
- Rhif ffôn cysylltu
- Cyfeiriad e-bost.

A fyddech cystal â chefnogi'r wybodaeth ofynnol gydag unrhyw dystiolaeth ategol rydych chi'n ei hystyried yn briodol (e.e. dolenni i wefannau cyhoeddus). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn am gadarnhad gan lofnodwr awdurdodedig bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn gywir ac yn gyfredol.

### 6.6. Trin yr Wybodaeth a Ddarparwyd

I gael gwybodaeth am beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cysylltu â Llywodraeth Cymru, ac i ddarparu eich gwybodaeth bersonol i ni, darllenwch hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru.

Bydd y data masnachol sensitif a roddir yn eich ymateb yn cael eu trin fel data masnachol cyfrinachol i Lywodraeth Cymru, er efallai y bydd angen rhannu ambell ran / pob rhan o ddata eich ymateb gyda'n hymgynghorwyr proffesiynol a/neu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon/BDUK, Ofcom, yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, y Gangen Cymorth Gwladwriaethol a'r Comisiwn Ewropeaidd wrth geisio cael Cymorth Gwladwriaethol.

Bydd y setiau data a'r mapiau a gyhoeddwyd yn cael eu cynnwys drwy ddefnyddio data gan yr holl weithredwyr perthnasol ac ni fyddant yn cael eu priodoli'n uniongyrchol i un ffynhonnell.

### 6.7. Y Camau Nesaf

Yn dilyn unrhyw ymatebion a geir i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn erbyn y dyddiad cau ar 12 Rhagfyr 2019, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi mapiau o'r Ardal Ymyrryd derfynol yn fuan ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

**Atodiad A: Rhestr o dermau**

| TERM | DIFFINIAD |
|---|---|
| **BDUK** | Building Digital UK (BDUK), sy'n rhan i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n gyfrifol am gyllid cyhoeddus Llywodraeth y DU i helpu i ddarparu gwell cysylltedd symudol a band eang yn y DU. BDUK yw'r Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol ar gyfer cydymffurfio â chymorth gwladwriaethol yn y DU ac mae'n gweithredu fel Swyddfa Cymhwysedd Band Eang genedlaethol. |
| **Ffeibr i'r Cabinet** | Dyma'r math o seilwaith band eang cyflym iawn sydd ar gael yn fwyaf eang yn y DU. Mae'n defnyddio'r rhwydwaith ffôn copr cyfredol. Mae ffeibr yn cael ei osod mewn cabinet gerllaw, ac mae'n cysylltu'r pellter i'r safle gyda'r llinell gopr sy'n bodoli eisoes. Gall cysylltiadau FTTC ddelio â chyflymderau lawrlwytho hyd at 80 megabit yr eiliad, ond bydd y cyflymder hwn yn lleihau po fwyaf pell yw'r safle o'r cabinet |
| **Ffeibr i'r Adeilad** | Dyma lle mae'r ffeibr optig yn rhedeg yn uniongyrchol i bob safle er mwyn cael cysylltiad â'r rhyngrwyd mewn ffordd sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae'r cyflymderau sy'n cael eu cynnig dros yr FTTP yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol – fel arfer mae hyd at 1 gigabit yr eiliad (1000Mb yr eiliad). Cynigir cyflymderau uwchlwytho cyflym iawn hefyd. Mae hynny'n arbennig o ddefnyddiol i fusnesau neu i bobl sy'n gweithio o gartref. |
| **Band eang Gigabit** | Band eang Gigabit yw band eang sy'n gallu darparu cyflymderau sy'n 1GB yr eiliad a mwy |
| **Y Cynllun Band Eang Cenedlaethol (NBS)** | Mae Cynllun Band Eang Cenedlaethol 2016 yn gyson â gofynion Canllawiau Band Eang y Comisiwn Ewropeaidd ac mae'n gwneud tryloywder yn ofynnol yng nghyswllt buddsoddi cyllid cyhoeddus ar gyfer y prosiect band eang. Mae gofynion NBS 2016 yn gosod rhwymedigaethau a chyfrifoldebau penodol ar BDUK fel gweinyddwr y Cynllun (y Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol) o ran gweithredu cyrff fel awdurdodau cyflwyno cymorth, ac ar gyflenwyr fel buddiolwyr cymorth. |
| **Seilwaith Band Eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf (NGA)** | Y strwythurau ffisegol sydd eu hangen i weithredu gwasanaethau band eang cyflym iawn sy'n darparu cyflymderau sydd o leiaf 30 Mb yr eiliad. |
| **Adolygiad o'r Farchnad Agored** | Ymarfer sy'n cael ei gynnal gyda'r farchnad i |

| | |
|---|---|
| **(OMR)** | bennu faint o ddisgwyl sydd i'r sector preifat ddefnyddio band eang NGA, er mwyn gwybod pa ardaloedd sydd heb unrhyw seilwaith band eang cymwys neu lle nad oes cynlluniau i ddarparu seilwaith o’r fath dros y tair blynedd nesaf. |
| **Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)** | Cod adnabod unigryw ar gyfer pob cyfeiriad ym Mhrydain. Mae’n darparu cod adnabod cynhwysfawr, cyflawn a chyson drwy gydol oes eiddo – o’r caniatâd cynllunio hyd at ei ddymchwel. |